


FFURFLENNI'R SYSTEM REOLI IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD		Ffurflen	F010	
	Ffurflen Asesu Risg Gweithgareddau o safbwynt COVID-19		Rhif	2
			Dyddiad	Gorff 2020
			Tudalen	1 o 7

Diben y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth i'r Cyfadrannau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol am y math o ystyriaethau a mesurau rheoli ychwanegol a allai fod yn ofynnol er mwyn ailgychwyn gwaith ar y safle ac ar yr un pryd reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19 a chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Gellir defnyddio'r ddogfen hon er mwyn ategu asesiadau risg sy'n bodoli eisoes ar gyfer gweithgareddau â'r ystyriaethau ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn sicrhau cadw pellter cymdeithasol priodol a'r trefniadau rheoli haint sy'n angenrheidiol er mwyn hwyluso ailgychwyn gweithgareddau ar y safle. Bydd angen asesiad risg addas a digonol cyn y caniateir ailgychwyn unrhyw weithgareddau ar y safle.

Dylid dilyn yr egwyddorion canlynol yn achos holl weithgareddau neu swyddogaethau'r Cyfadrannau a'r Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol:

- Dim ond ar gyfer gweithgareddau nad oes unrhyw fodd o'u cwblhau trwy weithio o gartref y caniateir mynediad i'r safle i staff.
- Dylai'r holl aelodau o staff sy'n gallu gweithio o gartref ddal ati i wneud hynny.
- Dylid gwneud pob ymdrech, pryd bynnag y bo modd, i ddileu risgiau cyswllt ac ymwneud rhwng unigolion yn ystod eu cyfnod ar y safle. Dim ond pan na ellir cael gwared â chyswllt (trwy weithio o gartref, er enghraifft) y dylid ystyried mesurau lliniaru eraill.
- Yn aml bydd angen addasu'r modd y mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal neu'r modd y mae gwaith yn cael ei strwythuro, yn ogystal â chynllun manau gwaith, er mwyn lleihau cymaint â phosibl ar unrhyw gyswllt anorfod rhwng unigolion.
- Dylid ystyried defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol fel yr ateb olaf un pan nad yw cyflwyno mesurau rheoli eraill yn lliniaru'r risgiau cysylltiedig yn llwyr.
- Gall cyflwyno mesurau rheoli sy'n galluogi cadw pellter cymdeithasol mewn modd effeithiol arwain at risgiau ychwanegol yn sgil gweithio ar eich pen eich hun, a rhaid mynd i'r afael â hynny hefyd mewn asesiadau risg lleol.
- Cyflwyno mesurau rheoli sydd yn galluogi lleihad yn lledaeniad heintiau ar arwynebau neu bwyntiau cyffwrdd.
- Mae manylion Gwasanaethau Glanhau'r Campws a Chyfrifoldebau Cwsmeriaid ar gael ar: <https://www.aber.ac.uk/cy/hse/covid/>. Dylid cynnwys y trefniadau ar gyfer glanhau ardaloedd ac / neu wrthrychau sy'n gyfrifoldeb yr Adran / Defnyddiwr yn yr Asesiad Risg Gweithgaredd perthnasol o safbwynt COVID.

Gweithgaredd: _____


Person(au) Cyfrifol: _____

Lleoliad: _____

Nifer y Staff sy'n Angenrheidiol: _____

Ailddechrau (dyddiad cychwyn a ffefrir): _____

Ystyriaethau sy'n gysylltiedig â'r Gweithgaredd	Nodwch gydag 'x'	Ystyriaethau sy'n gysylltiedig â'r Gweithgaredd	Nodwch gydag 'x'
Gofodau Swyddfa Cynllun Agored / â Sawl Defnyddiwr		Ardaloedd a ddefnyddir gan sawl grŵp e.e. labordai, stiwdios, ceginau ac ati	

FFURFLENNI'R SYSTEM REOLI IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD		Ffurflen	F010
	Ffurflen Asesu Risg Gweithgareddau o safbwynt COVID-19	Rhif	2
		Dyddiad	Gorff 2020
		Tudalen	2 o 7

Cyswllt wyneb yn wyneb (neu o fewn 2 fetr) rhwng yr unigolion		Teithio (Domestig neu Ryngwladol), gan gynnwys y Defnydd o Gerbydau a Thrafnidiaeth Gyhoeddus	
System Giwio er mwyn Cyrraedd neu Adael y Gweithgaredd/Swyddogaeth		Defnyddio Cyfarpar neu Beiriannau a Rennir	
Cyfarfodydd Grŵp, lle na ellir eu cynnal o bell		Gweithgaredd Awyr-agored	
Staff sy'n agored i niwed/yn uchel o ran risg (h.y. yn hŷn na 70, yn feichiog, neu â chyflwr cronig)		Mynediad gan Drydydd Partïon (e.e. myfyrwyr, aelodau o'r cyhoedd, cyflenwyr, contractwyr ac ati)	


Cyflwyniad

Dan Reoliad 12 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020, mae'n ofynnol i sefydliadau gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cedwir pellter o 2 fetr rhwng pob person ar y safle ac sy'n aros i fynd i mewn i'r safle. Mae'r gofyniad cyfreithiol hwn yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydliadau gymryd camau rhesymol lle bo'n ymarferol gwneud hynny. Y bwriad yw bod cadw pellter cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio yn ychwanegol at gyfres o gamau eraill a gymerir er mwyn ceisio lleihau'r risg gymaint â phosibl. Mae hyn yn cynnwys cadw'n glir oddi wrth bobl eraill os ydych yn arddangos symptomau, gweithio o gartref os yw hynny'n ymarferol, codi rhwystrau rhwng pobl lle bo hynny'n addas, neu wisgo cyfarpar diogelu personol os yw'r canllawiau'n dweud bod hynny'n angenrheidiol.

Gofodau Swyddfa Cynllun Agored / â Sawl Defnyddiwr

Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:


- Lleihau neu gyfyngu ar nifer y bobl sy'n gweithio yn yr ardal ar unrhyw adeg (h.y. cynyddu'r gofod rhwng pobl trwy leihau cyfanswm nifer y bobl yn yr ardal).
- Gwasgaru amseroedd shifftiau, gwasanaethau neu egwyl er mwyn lleihau cymaint â phosibl ar nifer y bobl sydd ar y safle, ac er mwyn lleihau prysurdeb adeg newid shifftiau.
- Lleihau'r cylchdroi rhwng dyletswyddau a lleoliadau, a lleihau symud trwy annog pobl i beidio â gwneud teithiau nad ydynt yn rhai hanfodol o fewn adeiladau a safleoedd.
- Defnyddio tâp neu baent ar y llawr i ddynodi ardaloedd er mwyn helpu gweithwyr i gadw pellter o 2m (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ar efastaff@aber.ac.uk i drefnu).
- Adolygu cynllun ystafelloedd a phrosesau er mwyn galluogi pobl i weithio ymhellach oddi wrth ei gilydd, gan gynnwys aildrefnu seddi a byrddau er mwyn cadw pellter a lleihau ymwneud wyneb yn wyneb (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ar efastaff@aber.ac.uk i gael cymorth i symud dodrefn).
- Pan nad oes modd symud gweithfannau ymhellach ar wahân, trefnu i bobl weithio ochr yn ochr neu gan wynebu oddi wrth ei gilydd yn hytrach nag wyneb yn wyneb, neu ddefnyddio sgriniau i wahanu pobl oddi wrth ei gilydd (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ar efastaff@aber.ac.uk i drefnu).
- Osgoi defnyddio desgiau a manau a ddefnyddir gan sawl person gwahanol (desgiau 'poeth').
- Creu gofod ychwanegol trwy ddefnyddio rhannau eraill o'r gweithle neu'r adeilad sydd yn wag yn sgil gweithio o bell.
- Agor ffenestri a drysau yn aml er mwyn annog awyru, lle bo modd.

FFURFLENNI'R SYSTEM REOLI IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD		Ffurflen	F010	
	Ffurflen Asesu Risg Gweithgareddau o safbwynt COVID-19		Rhif	2
			Dyddiad	Gorff 2020
			Tudalen	3 o 7

<ul style="list-style-type: none"> Rhannu staff yn dimau neu'n grwpiau shifft, a phennu bod y timau neu'r grwpiau shifft hyn yn rhai sefydlog, fel bod unrhyw gyswllt na ellir ei osgoi yn digwydd rhwng yr un bobl. 		
Mesur(au) Rheoli i'w Cyflwyno	Person(au) Cyfrifol	Dyddiad Cwblhau

Cyswllt wyneb yn wyneb (neu o fewn 2 fetr) rhwng unigolion		
<p>Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> Defnyddio tâp neu baent ar y llawr i ddynodi ardaloedd er mwyn helpu gweithwyr i gadw pellter o 2m (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ar efastaff@aber.ac.uk i drefnu). Adolygu cynllun ystafelloedd a phrosesau er mwyn galluogi pobl i weithio ymhellach oddi wrth ei gilydd (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ar efastaff@aber.ac.uk i gael cymorth i symud dodrefn). Pan nad oes modd symud gweithfannau ymhellach ar wahân, trefnu i bobl weithio ochr yn ochr neu gan wynebu oddi wrth ei gilydd yn hytrach nag wyneb yn wyneb, neu ddefnyddio sgriniau i wahanu pobl oddi wrth ei gilydd. Creu gofod ychwanegol trwy ddefnyddio rhannau eraill o'r gweithle neu'r adeilad sydd yn wag yn sgil gweithio o bell. Gosod sgriniau i ddiogelu staff mewn derbynfeydd neu fannau tebyg (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ar efastaff@aber.ac.uk i drefnu). Pan fydd pobl yn trosglwyddo gwrthrychau yn uniongyrchol o'r naill i'r llall, megis cyflenwadau swyddfa, ystyried ffyrdd o gael gwared â chyswllt uniongyrchol, megis defnyddio manau gadael neu ardaloedd trosglwyddo. 		
Mesur(au) Rheoli i'w Cyflwyno	Person(au) Cyfrifol	Dyddiad Cwblhau

System Giwio er mwyn Cyrraedd neu Arael y Gweithgaredd/Swyddogaeth		
<p>Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gwasgaru amseroedd shifftiau, gwasanaethau neu egwyl er mwyn lleihau cymaint â phosibl ar nifer y bobl sydd ar y safle, ac er mwyn lleihau prysurdeb adeg newid shifftiau. Defnyddio tâp neu baent ar y llawr i ddynodi ardaloedd er mwyn helpu gweithwyr i gadw pellter o 2m (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ar efastaff@aber.ac.uk i drefnu). 		

FFURFLENNI'R SYSTEM REOLI IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD		Ffurflen	F010	
	Ffurflen Asesu Risg Gweithgareddau o safbwynt COVID-19		Rhif	2
			Dyddiad	Gorff 2020
			Tudalen	4 o 7

- Adolygu cynllun ystafelloedd a phrosesau er mwyn galluogi pobl i weithio ymhellach oddi wrth ei gilydd (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ar efastaff@aber.ac.uk i gael cymorth i symud dodrefn).
- Creu gofod ychwanegol trwy ddefnyddio rhannau eraill o'r gweithle neu'r adeilad sydd yn wag yn sgil gweithio o bell.
- Gosod sgriniau i ddiogelu staff mewn derbynfeydd neu fannau tebyg (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ar efastaff@aber.ac.uk i drefnu).
- Pan fydd pobl yn trosglwyddo gwrthrychau yn uniongyrchol o'r naill i'r llall, megis cyflenwadau swyddfa, ystyried ffyrdd o gael gwared â chyswllt uniongyrchol, megis defnyddio manau gadael neu ardaloedd trosglwyddo.

Mesur(au) Rheoli i'w Cyflwyno	Person(au) Cyfrifol	Dyddiad Cwblhau

Cyfarfodydd Grŵp, lle na ellir eu cynnal o bell


- Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:
- Defnyddio adnoddau gweithio o bell er mwyn osgoi cyfarfodydd wyneb yn wyneb e.e. Microsoft Teams, Skype, ac ati.
 - Os nad yw cyfarfodydd rhithwir yn bosibl, ystyried hwyluso cyfarfodydd awyr-agored mewn manau lle gellir cadw pellter cymdeithasol addas.
 - Os nad oes unrhyw fodd o gynnal cyfarfodydd o bell, cadw nifer y bobl y mae angen iddynt fod yn bresennol mor isel â phosibl, a chadw pellter o 2 fetr o leiaf ar bob adeg.

Mesur(au) Rheoli i'w Cyflwyno	Person(au) Cyfrifol	Dyddiad Cwblhau

Staff sy'n agored i niwed/yn uchel o ran risg (h.y. yn hŷn na 70, yn feichiog, neu â chyflwr cronig) (Cewch wybodaeth bellach ynghylch y cyflyrau hyn yn: <https://llyw.cymru/coronafeirws-cadw-pellter-cymdeithasol>)

- Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:
- Yr holl aelodau o staff sydd mewn categorïau agored i niwed neu uchel o ran risg yn dal ati i weithio o gartref.
 - Ystyried ailneilltuo gweithgareddau y mae'n rhaid eu cyflawni ar y safle i staff nad ydynt mewn categorïau agored i niwed neu uchel o ran risg.
 - Os yw'n hanfodol i unigolyn sydd mewn categori agored i niwed neu uchel o ran risg ddod i'r safle, rhaid i'r trefniadau fod yn ddigon cadarn i sicrhau bod mynediad yn cael ei gyfyngu gymaint â phosibl ac nad oes unrhyw ymwneud ag unrhyw unigolion eraill yn ystod y cyfnod pan fydd yn cael mynediad.

Mesur(au) Rheoli i'w Cyflwyno	Person(au) Cyfrifol	Dyddiad Cwblhau

FFURFLENNI'R SYSTEM REOLI IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD		Ffurflen	F010
	Ffurflen Asesu Risg Gweithgareddau o safbwynt COVID-19	Rhif	2
		Dyddiad	Gorff 2020
		Tudalen	5 o 7

Ardaloedd a ddefnyddir gan sawl grŵp e.e. labordai, stiwdios, ceginau ac ati


Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Lleihau neu gyfyngu ar nifer y bobl sy'n gweithio yn yr ardal ar unrhyw adeg (h.y. cynyddu'r gofod rhwng pobl trwy leihau cyfanswm nifer y bobl sy'n gweithio yn yr ardal).
- Gwasgaru amseroedd shifftiau, gwasanaethau neu egwyl er mwyn lleihau cymaint â phosibl ar nifer y bobl sydd ar y safle, ac er mwyn lleihau prysurdeb adeg newid shifftiau.
- Lleihau'r cylchdroi rhwng dyletswyddau a lleoliadau, a lleihau symud trwy annog pobl i beidio â gwneud teithiau nad ydynt yn rhai hanfodol o fewn adeiladau a safleoedd.
- Cyfyngu mynediad i rai ardaloedd.
- Defnyddio tâp neu baent ar y llawr i ddynodi ardaloedd er mwyn helpu gweithwyr i gadw pellter o 2m (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ar efastaff@aber.ac.uk i drefnu).
- Adolygu cynllun ystafelloedd a phrosesau er mwyn galluogi pobl i weithio ymhellach oddi wrth ei gilydd (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ar efastaff@aber.ac.uk i gael cymorth i symud dodrefn).
- Pan nad oes modd symud gweithfannau ymhellach ar wahân, trefnu i bobl weithio ochr yn ochr neu gan wynebu oddi wrth ei gilydd yn hytrach nag wyneb yn wyneb, neu ddefnyddio sgriniau i wahanu pobl oddi wrth ei gilydd (cysylltwch â'r Tîm Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd ar efastaff@aber.ac.uk i drefnu).
- Osgoi defnyddio desgiau a manau a ddefnyddir gan sawl person gwahanol (desgiau 'poeth').
- Creu gofod ychwanegol trwy ddefnyddio rhannau eraill o'r gweithle neu'r adeilad sydd yn wag yn sgil gweithio o bell.
- Agor ffenestri a drysau yn aml er mwyn annog awyru, lle bo modd.
- Rhannu staff yn dimau neu'n grwpiau shifft, a phennu bod y timau neu'r grwpiau shifft hyn yn rhai sefydlog, fel bod unrhyw gyswllt na ellir ei osgoi yn digwydd rhwng yr un bobl.

Mesur(au) Rheoli i'w Cyflwyno	Person(au) Cyfrifol	Dyddiad Cwblhau

Gweithgaredd Awyr-agored

Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:

FFURFLENNI'R SYSTEM REOLI IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD		Ffurflen	F010	
	Ffurflen Asesu Risg Gweithgareddau o safbwynt COVID-19		Rhif	2
			Dyddiad	Gorff 2020
			Tudalen	6 o 7

- Lleihau neu gyfyngu ar nifer y bobl sy'n gweithio yn yr ardal ar unrhyw adeg (h.y. cynyddu'r gofod rhwng pobl trwy leihau cyfanswm nifer y bobl sy'n gweithio yn yr ardal).
- Gwasgaru amseroedd shifftiau, gwasanaethau neu egwyl er mwyn lleihau cymaint â phosibl ar nifer y bobl sydd ar y safle, ac er mwyn lleihau prysurdeb adeg newid shifftiau.
- Lleihau'r cylchdroi rhwng dyletswyddau a lleoliadau, a lleihau symud trwy annog pobl i beidio â gwneud teithiau nad ydynt yn rhai hanfodol rhwng safleoedd.
- Rhannu staff yn dimau neu'n grwpiau shifft, a phennu bod y timau neu'r grwpiau shifft hyn yn rhai sefydlog, fel bod unrhyw gyswllt na ellir ei osgoi yn digwydd rhwng yr un bobl.

Mesur(au) Rheoli i'w Cyflwyno	Person(au) Cyfrifol	Dyddiad Cwblhau

Defnyddio Cyfarpar neu Beiriannau a Rennir

Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:


- Neilltuo cyfarpar neu beiriannau i unigolion penodol ar gyfer y gweithgaredd ar ei hyd, er mwyn osgoi rhannu rhwng unigolion.
- Caffael cyfarpar neu beiriannau ychwanegol fel y gellir eu dyrannu i unigolion penodol ar gyfer y gweithgaredd ar ei hyd, er mwyn osgoi rhannu rhwng unigolion.
- Pan fydd pobl yn trosglwyddo gwrthrychau yn uniongyrchol o'r naill i'r llall, megis cyflenwadau swyddfa, ystyried ffyrdd o gael gwared â chyswllt uniongyrchol, megis defnyddio manau gadael neu ardaloedd trosglwyddo.
- Gweithdrefnau ar gyfer glanhau cyfarpar neu beiriannau a rennir cyn ac ar ôl eu defnyddio bob tro, gyda chynnyrch sy'n effeithiol yn erbyn COVID-19.

Mesur(au) Rheoli i'w Cyflwyno	Person(au) Cyfrifol	Dyddiad Cwblhau

Teithio (Domestig neu Ryngwladol), gan gynnwys y Defnydd o Gerbydau a Thrafnidiaeth Gyhoeddus

Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Yr holl deithio sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol yn gorfod cael ei gymeradwyo yn unol â gofynion Polisi Teithio'r Brifysgol. Os yw Llywodraeth y DU a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn cynghori yn erbyn pob teithio nad yw'n hanfodol, bydd angen awdurdodiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor perthnasol.
- Lleihau cymaint â phosibl ar deithio nad yw'n hanfodol trwy ystyried opsiynau o bell yn gyntaf.
- Neilltuo cerbydau i unigolion penodol ar gyfer y gweithgaredd ar ei hyd, er mwyn osgoi rhannu cerbydau.
- Gweithdrefnau ar gyfer glanhau cyfarpar neu beiriannau a rennir cyn ac ar ôl eu defnyddio bob tro, gyda chynnyrch sy'n effeithiol yn erbyn COVID-19.

FFURFLENNI'R SYSTEM REOLI IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD		Ffurflen	F010	
	Ffurflen Asesu Risg Gweithgareddau o safbwynt COVID-19		Rhif	2
			Dyddiad	Gorff 2020
			Tudalen	7 o 7

- Dim cludo unrhyw deithwyr yng ngherbydau'r Brifysgol, oni bai ei fod yn gwbl hanfodol.
- Os nad oes modd cael un person yn y cerbyd yn unig, cludo teithiwr yn y sedd gefn yn hytrach na sedd flaen y cerbyd.
- Lleihau cymaint â phosibl ar nifer y bobl sy'n teithio gyda'i gilydd mewn unrhyw gerbyd, defnyddio partneriaid teithio sefydlog, cynyddu'r awyru os oes modd ac osgoi eistedd wyneb yn wyneb.

Mesur(au) Rheoli i'w Cyflwyno	Person(au) Cyfrifol	Dyddiad Cwblhau

Mynediad gan Drydydd Partïon (e.e. myfyrwyr, aelodau o'r cyhoedd, cyflenwyr, contractwyr ac ati)

Gall y math o fesurau rheoli y gellir eu cyflwyno gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Hwyluso mynediad i drydydd partïon trwy apwyntiad ymlaen llaw yn unig.
- Cadw cofnod o bob ymwelydd.
- Cadarnhau statws iechyd pob ymwelydd â'r gweithle h.y. a oes ganddynt unrhyw symptomau COVID-19, neu a ydynt wedi'u cynnwys mewn unrhyw grŵp agored i niwed neu uchel o ran risg.
- Cyfyngu mynediad ymwelwyr i rai ardaloedd.
- Cyfyngu amseroedd ymweld i slotiau amser penodol a chyfyngu mynediad i ymwelwyr hanfodol yn unig.
- Penderfynu a ellir newid yr amserlenni ar gyfer ymweliadau gan wasanaethau hanfodol a chontractwyr er mwyn lleihau'r ymwneud a'r gorgyffwrdd rhwng pobl, er enghraifft trwy gynnal gwaith ar wasanaethau yn ystod y nos.
- Ystyried ffyrdd o leihau amllder danfoniadau, er enghraifft trwy archebu niferoedd mwy yn llai aml.

Mesur(au) Rheoli i'w Cyflwyno	Person(au) Cyfrifol	Dyddiad Cwblhau

Sgôr Risg Cyffredinol

Ffactor Risg (cyn cyflwyno mesurau rheoli)			Risg Sy'n Weddill (ar ôl cyflwyno mesurau rheoli)		
Difrifoldeb	Tebygolrwydd	Risg	Difrifoldeb	Tebygolrwydd	Risg